

Grŵp Porthladdoedd Cymru

“Cysylltu Cymru ”



Cynhyrchwyd gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain ac UKMPG

CYNNWYS

- Grŵp Porthladdoedd Cymru
- Yn Cynrychioli Sector Hanfodol
- Yn Cefnogi Busnes a Diwydiant
- Diwydiant Porthladdoedd Cymru
- Mathau o Borthladdoedd
- Buddsoddi mewn Cysylltiadau a Seilwaith
- Yr Amgylchedd a Chynllunio
- Sicrhau Diwydiant Blaengar
- Cyfeiriadur Porthladdoedd Cymru



Grŵp Porthladdoedd Cymru

Grŵp Porthladdoedd Cymru yw'r unig fforwm sy'n cynrychioli barn y sector pwysig hwn yng Nghymru. Wedi'i gydlyn gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain a Grŵp Prif Borthladdoedd y DU, mae'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill.



Yn cynrychioli sector hanfodol

Mae Bil Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, yn cynnwys cynigion i ddatganoli'r rhan fwyaf o swyddogaethau polisi porthladdoedd i Llywodraeth Cymru. Mae barn Grŵp Porthladdoedd Cymru ar hyn yn dal i fod yn niwtral. Yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd yw'r fframwaith polisi.

Rydym yn disgwyl i hyn gael ei droi'n ddull gweithredu sefydlog gan y Llywodraeth mewn perthynas â pholisi porthladdoedd, wedi'i arwain gan y farchnad, gan barhau â'r model perchenogaeth gymysg a sicrhau chwarae teg i holl borthladdoedd Cymru fel na fyddant o dan anfantais o gymharu â phorthladdoedd eraill y tu allan i Gymru. Mae fframwaith polisi presennol Cymru a Lloegr yn dampled da ar gyfer y polisi hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwyddion cadarnhaol y byddai'n parhau â'r dull gweithredu wedi'i arwain gan y farchnad mewn perthynas â phorthladdoedd ac rydym yn awyddus i ddechrau trafodaeth. Bydd y bil newydd yn darparu ffocws ar gyfer trafodaeth.

Hefyd o ddiddordeb mae'r trefniadau ar ffordd o ddyrannu adnoddau ar gyfer uned borthladdoedd newydd yng Nghymru a fyddai â rôl caniatáu allweddol, yn goruchwyllo ceisiadau o dan y Gorchymyn Adolygu Harbwr. Edrychwn ymlaen at drafod yr holl bwyntiau hyn gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r UE yn ffynhonnell deddfwriaeth arall. Mae'r Rheoliad Gwasanaethau Porthladdoedd sy'n cael ei ystyried ym Mrwsel ar hyn o bryd, yn cynnig cyfyngiad nas croesewir ar allu llawer o'r porthladdoedd mwy o faint yng Nghymru i wneud penderfyniadau o ran darparu gwasanaethau a chodi taliadau sy'n seiliedig ar y farchnad. Rydym wedi gwerthfawrogi cymorth ASEau Cymru wrth ddadlau achos y sector porthladdoedd.



Ffeithiau a Ffigurau am Borthladdoedd Cymru

- Yn 2014, mewnforiodd ac allforiodd porthladdoedd Cymru 54 miliwn o dunelli o gargo, tua 10% o gyfanswm llif y DU a chyfwerth ag 18 tunnell o gargo y person yng Nghymru.
- Yn 2013, roedd porthladdoedd Cymru yn gyfrifol am 1.2% o GYG Cymru, sef cyfanswm o £560 miliwn.
- Ar hyn o bryd, mae'r sector porthladdoedd yng Nghymru yn creu tua 11,000 o swyddi uniongyrchol, swyddi anuniongyrchol a swyddi gwneud.

Yn cefnogi busnes a diwydiant




Bob blwyddyn, mae porthladdoedd Cymru yn ymdrin â **10%**, neu tua **54m tunnell**, o nwyddau'r DU a gludir ac mae hyn yn cynnwys traffig llongau fferi, olew a nwy, cynwysyddion, dur, biomas, llwythi swmp yn ogystal â chargoau ynni adnewyddadwy eraill ar y môr. Mae porthladdoedd hefyd yn darparu cyfleusterau hollbwysig ar gyfer llongau mordeithiau, gweithgareddau hamdden morol a'r diwydiant pysgota. Mae'r rhain yn fasnachau amrywiol a hanfodol, sy'n cefnogi bron i **11,000 o swyddi uniongyrchol, swyddi anuniongyrchol a swyddi gwneud** yn ogystal â chynnal rhannau hollbwysig o'r economi.

Caiff economïau Cymru a'r DU eu gwasanaethu gan gadwyni dosbarthu ledled y byd - nwy o Qatar a Thrinidad, mwyn haearn o Awstralia a'r Americas, cynhyrchion adeiladu a masnachau hanfodol eraill i mewn ac allan o Ewrop, olew a thanwydd i mewn ac allan o bob rhan o'r byd, gan gynnwys yr UD, De America, Gorllewin Affrica ac Asia, a gwasanaethau llongau fferi 'traffyrdd y môr' i Iwerddon. Fesul tunnell o gargo a symudir, morgludo sydd â'r effaith amgylcheddol leiaf. Mae cysylltiad cryf felly rhwng cynaliadwyedd yn ein heconomi a buddsoddi mewn ardaloedd porthladd a'r seilwaith sy'n eu gwasanaethu.

Mae'r DU yn darparu cyswllt 'pont dir' hanfodol ar gyfer llwythi a nwyddau rhwng Ewrop gyfandirol ac Iwerddon. Mae porthladdoedd fferi Cymru yn hanfodol i'r cyswllt. Mae'r llwybrau hyn hefyd yn byrth pwysig i deithwyr ac yn 2015, teithiodd dros 2.6 miliwn o bobl ar longau fferi drwy borthladdoedd Cymru.


Diwydiant porthladdoedd Cymru

Mae porthladdoedd a harbyrau yn deillio o'u lleoliadau. Maent yn amrywio'n sylweddol o ran maint a math o weithgaredd a gallant fod o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol ac weithiau, genedlaethol.



Ac eithrio'r gweithrediadau masnachol a gysylltir fel arfer â phorthladdoedd - ymdrin â llwythi nwyddau a theithwyr - maent yn ymgymryd â llawer o ddyletswyddau statudol pwysig, gan amrywio o sicrhau diogelwch mordwyol i weithredu cyfundrefnau diogelwch ac amgylcheddol soffistigedig. Maent yn darparu cyfleusterau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr ac yn cefnogi amrywiaeth o fusnesau.

Lleoliad Porthladdoedd yng Nghymru



Mathau o borthladdoedd

Mae tri model o berchenogaeth porthladdoedd:



Ymddiriedolaeth - Mae porthladd ymddiriedolaeth yn gorff statudol annibynnol a lywodraethir gan ei ddeddfwriaeth leol ei hun ac a reolir gan fwrdd annibynnol. Mae lefelau atebolrwydd uchel yn gysylltiedig â phorthladdoedd ymddiriedolaeth ac maent yn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth o ran sut y dylent ddangos atebolrwydd a chynnydd masnachol. Mae porthladdoedd ymddiriedolaeth yng Nghymru yn amrywio o ran maint ac yn cynnwys Aberdaugleddau, Castell-nedd, Casnewydd, Caernarfon a Saundersfoot.



Wedi'u preifateiddio - Mae sector porthladdoedd wedi'u preifateiddio sylweddol yng Nghymru. Cwmnïau o dan berchenogaeth breifat yw porthladdoedd wedi'u preifateiddio, sydd weithiau'n rhan o grŵp mwy o borthladdoedd, er enghraifft, porthladdoedd De Cymru sy'n rhan o Associated British Ports (ABP) sy'n cynnwys y gweithrediadau yn y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Port Talbot ac Abertawe. Mae porthladdoedd eraill o dan berchenogaeth breifat yn cynnwys Porthladdoedd Stena Line yng Nghaergybi ac Abergwaun a phorthladd Mostyn, sydd o dan berchenogaeth annibynnol.



Trefol - Caiff porthladdoedd trefol eu rhedeg gan awdurdodau lleol. Mae canllawiau llywodraethu penodol yn berthnasol iddynt sy'n pwysleisio buddiannau annibyniaeth ariannol drwy neilltuo cyfrifon yn ogystal â rhoi strwythurau corfforaethol ar waith gyda dull gweithredu mwy traddodiadol ar sail bwrdd, sy'n caniatáu i'r pwyllgor gwaith weithio gyda bwrdd ag amrywiaeth o arbenigedd morol a busnes. Mae enghreifftiau o awdurdodau lleol yng Nghymru â budd mewn porthladd yn cynnwys cynghorau Conwy ac Ynys Môn. Ar y cyfan, harbyrau llai o faint yw'r porthladdoedd awdurdod lleol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar hamdden a physgota.

Maent oll yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd yng Nghymru ac nid yw eu statws yn effeithio ar eu hannibyniaeth.

Llif blynyddol yng Nghymru 2014

<u>Porthladd</u>	<u>Miliwn o Dunelli</u>
Y Barri	0.3 m
Caerdydd	1.9 m
Abergwaun	0.3 m
Caergybi	2.8 m
Aberdaugledau	39.0 m
Mostyn	0.02 m
Castell-nedd	0.2 m
Casnewydd	2.7 m
Port Talbot	5.1 m
Abertawe	0.4 m
Porthladdoe dd eraill	0.3 m
<u>Cyfanswm Cymru =</u>	<u>54 Miliwn o Dunelli</u>



Buddsoddi mewn cysylltiadau a seilwaith



Mae trafndiaeth a seilwaith yn allweddol i economi lewyrchus, ac mae porthladdoedd Cymru yn borth pwysig i fasnachu rhyngwladol. Yn genedlaethol ac yn lleol, mae gallu Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y rhwydwaith trafndiaeth yn ffactor allweddol.

Mae mwyafrif helaeth y nwyddau a'r teithwyr yn mynd i mewn ac allan o'r porthladdoedd ar ffyrdd, sydd felly yn hanfodol i'n llwyddiant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o fentrau a chynlluniau gan y llywodraeth i roi hwb i drafndiaeth, ynni ac adfywio. Fe'u croesawyd ar y cyfan er bod lefelau'r cyllid yn gymharol isel o hyd. Mae cysylltedd yn ymdrin â sawl agwedd, gan gynnwys nid yn unig welliannau i'r M4, trydaneiddio'r rheilffyrdd ond hefyd buddsoddi mewn band eang cyflym. Mae'r rhain oll yn helpu i sicrhau bod porthladdoedd a'r economi yng Nghymru yn parhau'n gystadleuol ac yn ddeinamig.

Effaith ranbarthol diwydiant porthladdoedd y DU 2014

GYG (£miliwn)					
	Union-gyrchol	Anunion-gyrchol	Gwneud	Cyfanswm	% o GYG
Cymru	140	220	190	560	1.2%
Cyflogaeth					
	Union-gyrchol	Anunion-gyrchol	Gwneud	Cyfanswm	% o Gyflogaeth
Cymru	2,600	4,500	3,800	10,900	0.9%

Yr amgylchedd a chynllunio



Fesul tunnelli o gargo a symudir, morgludo sydd â'r effaith amgylcheddol leiaf



Mae gan borthladdoedd Cymru hanes ardderchog o ran yr amgylchedd ac mae'r diwydiant yn ymrwymedig i adeiladu ar ei berfformiad amgylcheddol da. Mae datblygiadau porthladd yn destun cyfundrefn cynllunio a chaniatâd drylwyr. Rydym yn awyddus bod y prosesau hyn yn cael eu symleiddio cymaint â phosibl er mwyn helpu porthladdoedd i fwrw ymlaen â phrosiectau. Mae angen trwyddedau morol penodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn aml ar borthladdoedd er mwyn gweithredu a datblygu. Gall y rhain fod ar gyfer treillio er mwyn cynnal mynediad diogel i longau neu ar gyfer datblygiadau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gyfundrefn ffioedd trwyddedau morol ar hyn o bryd, a gallai hyn olygu cynyddu costau i borthladdoedd.

Mae nifer fawr o weithgareddau yn parhau lle mae angen trwyddedau ac rydym wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno nifer o eithriadau ar gyfer gweithgareddau risg isel, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Hefyd, fel rhan o'r adolygiad, rydym yn awyddus bod y tîm caniatâd yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid a'i lefelau perfformiad ei hun. Mae angen i'r amodau trwyddedu ar gyfer caniatadau datblygu porthladdoedd fod yn gymesur.

Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio ei Chynllun Morol Cenedlaethol ei hun. Bydd y Cynllun yn darparu fframwaith strategol ar gyfer yr holl weithgareddau arfordirol yng Nghymru ac mae ei angen er mwyn cydbwysu gweithgareddau economaidd-gymdeithasol a chynaliadwyedd. Mae drafft presennol y Cynllun yn cydnabod gweithgareddau porthladd a morgludo pwysig. Rydym o'r farn bod rhai o'r polisiâu cyffredinol yn rhy rhagnodol ac rydym wedi ysgrifennu at swyddogion yn nodi ein pryderon. Mae'n hollbwysig nad yw'r Cynllun hwn yn cyfyngu ar ddatblygiad a thwf.


Cefnogi diwydiant blaengar



Er mwyn hyrwyddo trefniadau cydweithredu â Llywodraeth Cymru, mae Grŵp Porthladdoedd Cymru wedi llunio nifer o **Amcanion Polisi a Rennir** arfaethedig a fyddai'n helpu i gynnal cyfraniad a dyfodol economaidd diwydiant Porthladdoedd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trafodaethau rheolaidd rhwng y diwydiant a llywodraeth
- Cynnal dull gweithredu wedi'i arwain gan y farchnad mewn perthynas â pholisi porthladdoedd
- Cefnogi'r cymysgedd presennol o wahanol fodelau perchenogaeth porthladdoedd
- Symleiddio'r system gynllunio a chaniatâd morol
- Hyrwyddo strategaeth diogelwch morol sy'n cydbwysu anghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol
- Hyrwyddo fframwaith polisi sy'n caniatáu i borthladdoedd Cymru barhau'n gystadleuol o gymharu â'r rheini sydd y tu allan i Gymru
- Sicrhau gwell cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynlluniau gwella cysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd i borthladdoedd Cymru er mwyn annog twf o ran cludo nwyddau a theithwyr
- Cyfnewid gwybodaeth am gyfleoedd twf mewn marchnadoedd porthladd.

Edrychwn ymlaen at drafod y pwyntiau hyn gyda sefydliadau allweddol a'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a chroesawn y cyfle i wneud hynny





Cyfeiriadur Porthladdoedd Cymru

ABP Caerdydd

Tŷ'r Frenhines Alexandra, Cargo Road, Caerdydd, CF10 4L

Cyfarwyddwr ABP De Cymru: Matthew Kennerley

Rheolwr y Porthladd: Chris Green (cgreen@abports.co.uk)

Ffôn: 0870 609 6699

Gwefan: www.abports.co.uk a www.southwalesports.co.uk Mathau o draffig yr ymdrinnir ag ef: swmp lwythi sych, dur, cynhyrchion coedwig, swmp lwythi hylif



ABP Port Talbot

Tŷ Puckey, Harbwr Port Talbot, Port Talbot, SA13 1RB

Cyfarwyddwr ABP De Cymru: Matthew Kennerley

Rheolwr y Porthladd: Callum Couper (ccouper@abports.co.uk)

Mathau o draffig yr ymdrinnir ag ef: sorod wedi'i brosesu, tywod, sment, dur a chargoau trwm.

Ffôn: 0870 609 6699

Gwefan: www.abports.co.uk a www.southwalesports.co.uk



ABP Abertawe

Swyddfa'r Porthladd, Lock Head, Doc y Brenin, Abertawe, SA1 1QR

Cyfarwyddwr ABP De Cymru: Matthew Kennerley

Rheolwr y Porthladd: Callum Couper (ccouper@abport.co.uk)

Ffôn: 0870 609 6699

Gwefan: www.abports.co.uk a www.southwalesports.co.uk Mathau o draffig yr ymdrinnir ag ef: cargoau trwm, cynhyrchion coedwig, mineralau a mwynau, swmp lwythi sych.



ABP Casnewydd

Port House , Doc Alexander , Casnewydd , NP20 2UW

Ffôn: 0870 609 6699

Ralph Windeatt - Pennaeth Commercial-rwindeatt@abports.co.uk Ffôn : 02920 835 062

Gwefan: www.abports.co.uk a www.southwalesports.co.uk



ABP Barry

Swyddfa Porthladd Y Barri , Ffordd Iwerydd , Y Barri , CF63 3US

Ffôn: 0870 609 6699 R

alph Windeatt - Pennaeth Commercial-rwindeatt@abports.co.uk F

fôn : 02920 835 062

Gwefan: www.abports.co.uk a www.southwalesports.co.uk



Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot

Yr Harbwr, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9HE

Prif Ffôn: 01834 812 094—Gwefan: www.saundersfootharbour.co.uk

Cyswllt: Mr M Davies, Prif Swyddog Gweithredol—
mdavies@saundersfootharbour.co.uk

Mr P Evans – Cadeirydd—Mr E Sangster – Is Gadeirydd

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Hamdden, pysgota a chychod pleser masnachol.



Harbwr Conwy (Cyngor Sir Conwy)

Swyddfa'r Harbwr, Cei Conwy, Conwy, LL32 8BB

Prif Ffôn: 01492 596 253

www.conwy.gov.uk/harbourandseaboard

Cyswllt: Matthew Forbes, Meistr yr Harbwr—
harbwr.conwy.harbour@conwy.gov.uk

Barry Tuson, Dirprwy Feistr yr Harbwr—barry.tuson@conwy.gov.uk

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Pysgota a hamdden



Porthladd Abergwaun

Line Ports Cyf, Dyfed, Sir Benfro, SA64 0BU

Prif Ffôn: 01348 404425

Gwefan: www.fishguardport.com

Cyswllt: Ian Davies, Rheolwr Llwybrau—ian.davies@stenaline.com

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Ro-Ro.

Porthladd Caergybi - Porthladdoedd Stena Line

Cyf Tŷ Stena, Heol yr Orsaf, Caergybi, Ynys Môn, LL65 3BW

Prif Ffôn: 01407 606 660

Gwefan: www.holyheadport.co.uk

Cyswllt: Capten Wyn Parry, Rheolwr Llongau a'r Porthladd—01407 606 660,
wyn.parry@stenaline.com

Capten Brian McCleery, Meistr yr Harbwr—014076066775

brian.mccleery@stenaline.com

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Ro-ro, cargo cyffredinol, llwythi swmp a llongau mordeithiau





Adran Forol Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Prif Harbyrau: Harbwr Amlwch, Pier Biwmares a Phier Porthaethwy

Prif Ffôn: 01248 752 320

Gwefan: www.anglesey.gov.uk/leisure/maritime-services

Cyswllt: John Owen, Uwch Swyddog Morol—joxht@anglesey.gov.uk

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Hamdden, pysgod.

Porthladd Aberdaugleddau

Gorsewood Drive, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3EP

Prif Ffôn: 01646 696100—Gwefan: www.mhpa.co.uk

Cyswllt: Alec Don, Prif Weithredwr—01646 696 100, alec.don@mhpa.co.uk

Andy Jones, Dirprwy Brif Weithredwr—01646 696 100, andy.jones@mhpa.co.uk

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Swmp lwythi hylif, ro-ro, pysgod, swmp lwythi sych, cargoau prosiect, cargoau cyffredinol a llongau mordeithiau.

Porthladd Mostyn Cyfyngedig

Ffordd yr Arfordir, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 9HE

Prif Ffôn: 01745 560 335 - Gwefan: www.portofmostyn.co.uk

Cysylltwch â: Mr Jim O'Toole, Rheoli Director-jim.otoole@portofmostyn.com

Captain Roy Hyde - Linaker, Harbwr Feistr - harbourmaster@portofmostyn.com

Mr. William Calderbank, Port Manager-will.calderbank@portofmostyn.com

Mathau o Traffig drin: cargo cyffredinol, swmp, ro-ro, cargo prosiect - canolfannau gwasanaeth fferm wynt ar y môr



Awdurdod Porthladd Castell-nedd

Woodfield House, Castle Walk, Castell-nedd, Gorllewin Morgannwg, SA11 3LN

Prif Ffôn: 01639 633 486—Gwefan: www.npt.gov.uk

Cyswllt: GT Pullen, Cadeirydd, R Minty, Rheolwr—RW Hemming, Meistr yr Harbwr

E-bost: portofneath@btconnect.com

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Allforio coiliau dur, deunyddiau sgrap, gwastraff wedi'i ailgylchu, mewnfario porthiant anifeiliaid, halen, bariau cryfhau a thywod.

Comisiynwyr Harbwr Casnewydd

24 Stryd y Bont, Casnewydd, NP20 4SF

Prif Ffôn: 01633 265 323—Gwefan: www.newportharbourcommissioners.org.uk

Cyswllt: Colin Crick, Cadeirydd—Jill Lloyd, Clerc i'r Comisiwn

jllloyd@walterhunter.co.uk

Mathau o Draffig yr ymdrinnir ag ef: Gwasanaethau gwarchod ar gyfer Porthladd Casnewydd.

Contact us:



British Ports Association
30 Park Street, London, SE1 9EQ
Gwefan : www.britishports.org.uk
Ffôn: 020 7260 1780
E-bost info@britishports.org.uk



UK Major Ports Group
30 Park Street, London, SE1 9EQ
Gwefan: www.ukmajorports.org.uk
Ffôn: 020 7260 1785
E-bost: info@ukmajorports.org.uk

